Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ddysgu yn y Gwaith ym Mhartneriaeth Sgiliau Bae Abertawe

**Coleg Gŵyr Abertawe**
**Heol Tycoch**
**Abertawe**
**SA2 9EB**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2016**

## Cyd-destun

Consortiwm dysgu yn y gwaith yw Partneriaeth Sgiliau Bae Abertawe (SBSP) a sefydlwyd yn Ebrill 2015. Caiff y consortiwm ei arwain gan Goleg Gŵyr Abertawe. Mae’n cynnwys wyth darparwr dysgu yn y gwaith, sef:

- Coleg Gŵyr Abertawe – Aelod arweiniol y consortiwm
- Hyfforddiant Cyflogaeth Dysgu Gydol Oes Dinas a Sir Abertawe (LLETS) – aelod o’r consortiwm

Dyma’r isgontractwyr:

- XR Training
- Care in Hand
- WBTA
- Vocations Training
- Futureworks – Cyngor Sir Penfro
- Ymddiriedolaeth Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Yn Ne Orllewin Cymru, mae SBSP yn cyflwyno hyfforddiant i ryw 1,000 o ddysgwyr ar hyn o bryd.

Mae’r consortiwm yn cyflwyno’r rhaglenni dysgu yn y gwaith canlynol:

- Prentisiaethau Sylfaen (PS)
- Prentisiaethau (P)
- Prentisiaethau Uwch (PU)

Mae’n cynnig y llwybrau dysgu yn y gwaith canlynol:

- Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi
- Busnes, Gweinyddu a’r Gyfraith
- Adeiladu, Cynllunio a’r Amgylchedd Adeiledig
- Addysg a Hyfforddiant
- Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu
- Gwallt a Harddwch
- Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal
- Lletygarwch ac Arlwyo
- TGCh
- Hamdden, Teithio a Thwristiaeth
- Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau hyfforddi arnynt yr un fath â, neu islaw'r, cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer dysgu yn y gwaith. Mae data heb ei gyhoeddi ar gyfer 2014-2015 yn dangos bod cyfraddau cyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr yn dechrau gwella. Fodd bynnag, mae nifer y dysgwyr sy'n cymryd yn hwy na'r disgwyl i gwblhau eu rhaglen hyfforddi yn rhy uchel.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn ennill eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar gyfraddau tebyg i'r cyfartaledd cenedlaethol. Mewn rhai achosion, mae dysgwyr yn ennill y cymwysterau hyn uwchlaw'r lefelau disgwyliedig ar gyfer eu fframwaith cymhwyster.

Mae ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu yn ddigonol. Mae staff addysgu, tiwtoriaid ac aseswyr ar draws y consortiwm yn meddu ar wybodaeth bynciol a medrau galwedigaethol a diwydiannol cyfoes. Maent yn cymhwyso'r rhain yn dda i gynllunio yn eu sesiynau. Mae gan y rhan fwyaf o'r staff addysgu ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw staff addysgu ac aseswyr bob amser yn ymestyn a herio dysgwyr ddigon i gyrraedd eu llawn botensial.

Mae gan aseswyr yn y gweithle berthnasoedd da â'u dysgwyr a'u cyflogwyr. Maent yn gosod targedau priodol ar gyfer dysgwyr i gyflawni eu nod cymhwyster. Fodd bynnag, nid ydynt yn gosod targedau yn rheolaidd i gynorthwyo dysgwyr i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â'i gontract a natur y bartneriaeth, nid yw uwch arweinwyr wedi gallu sefydlu a chyfleu cyfeiriad strategol clir a thymor hir ar gyfer y consortiwm. O ganlyniad, nid yw llawer o staff ac isgontractwyr yn glir ynglŷn â nodau'r consortiwm a'u lle ynddo. Sefydlwyd ystod o grwpiau datblygu ansawdd a gweithredu. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y grwpiau hyn.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella'r darparwr yn ddigonol oherwydd:

- At ei gilydd, mae cyfraddau cyrhaeddiad dysgwyr yn gwella
- Ar draws y consortiwm, mae nifer y dysgwyr sy'n cymryd yn hwy na'r disgwyl i gwblhau eu rhaglen hyfforddi yn rhy uchel
- Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid ac aseswyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgwyr
- Ni chaiff rhai dysgwyr eu hymestyn neu'u herio ddigon
- Mae staff y consortiwm yn rhoi cymorth da i ddysgwyr

- Mae gan y consortiwm ystod eang o bartneriaethau effeithiol gyda chyflogwyr
- Nid yw partneriaid ac isbartneriaid y consortiwm yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ddigon da ymhlith yr holl ddysgwyr
- Nid yw prosesau hunanasesu ar draws y consortiwm yn ddigon trylwyr

## Argymhellion

A1 Gwella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau eu fframweithiau hyfforddi a'u cymwysterau arnynt yn llwyddiannus

A2 Gwneud mwy i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang pob dysgwr

A3 Rhoi trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod pob dysgwr yn gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd

A4 Sicrhau bod pob dysgwr yn cael adborth ysgrifenedig adeiladol rheolaidd i'w helpu i wella

A5 Sefydlu nodau ac amcanion strategol clir i holl aelodau'r consortiwm

A6 Gwella'r ffordd y caiff perfformiad dysgwyr ei fonitro a'i reoli

A7 Gwella cywirdeb hunanasesu

A8 Datblygu rhaglen gynlluniedig o ddatblygiad proffesiynol, gan gynnwys nodi a rhannu arfer dda ar draws y consortiwm

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

O ystyried y barnau digonol, bydd tîm o arolygwyr yn cynnal ymweliad monitro tua blwyddyn ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Bwriad yr ymweliad hwn fydd asesu'r cynnydd a wnaed gan y darparwr yn unol â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn 2013-2014, mae'r gyfradd y cyflawnodd dysgwyr yng Ngholeg Gŵyr Abertawe (GCS) eu fframweithiau hyfforddi arni yr un fath â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer dysgu yn y gwaith. Fodd bynnag, yn yr un cyfnod, cyflawnodd dysgwyr yng Ngwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Hyfforddiant Cyflogaeth Dinas a Sir Abertawe (LLETS) eu fframweithiau ar gyfraddau chwe phwynt canran islaw'r cyfartaledd ar gyfer dysgu yn y gwaith.

Mae data heb ei gyhoeddi ar gyfer 2014-2015 yn dangos bod cyfraddau cyrhaeddiad dysgwyr GCS ychydig yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol y flwyddyn flaenorol. Mae data'n dangos bod cyfraddau cyrhaeddiad dysgwyr Prentisiaeth Uwch ymhell uwchlaw cyfartaledd cenedlaethol y flwyddyn flaenorol. Yn yr un cyfnod, cyflawnodd dysgwyr yn LLETS eu fframweithiau ar gyfraddau ychydig islaw cyfartaledd cenedlaethol y flwyddyn flaenorol.

Mae data heb ei gyhoeddi diweddaraf y consortiwm ar gyfer Awst 2015 hyd yn hyn yn dangos bod cyfraddau cyrhaeddiad dysgwyr wedi cael eu cynnal, ac maent wedi gwella mewn rhai meysydd dysgu.

Ar draws y consortiwm, mae nifer y dysgwyr sy'n cymryd yn hwy na'r disgwyl i gwblhau eu rhaglen hyfforddi yn rhy uchel. Yn 2013-2016, mae GCS wedi gostwng y nifer ychydig. Fodd bynnag, yn yr un cyfnod, mae nifer y dysgwyr sy'n cwblhau eu rhaglen yn hwyr yn LLETS wedi cynyddu ac mae'n rhy uchel o lawer.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn llwyddo i ennill eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar gyfraddau sy'n debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol ac ar lefelau sy'n briodol i'w rhaglenni hyfforddi. Mae ychydig iawn o ddysgwyr yn ennill y cymwysterau hyn uwchlaw'r lefel sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu fframwaith cymhwyster.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd priodol ar eu rhaglenni hyfforddi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu a dangos safonau da o gymhwysedd ymarferol, yn enwedig yn y gweithle. Mae mwyafrif y dysgwyr yn dangos gwybodaeth am theori sy'n briodol i'r cyfnod yn eu rhaglen hyfforddi. Mae rhai dysgwyr yn datblygu gwybodaeth fanylach ac maent yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn dda i'w gwaith ymarferol yn eu gweithle.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn cwblhau eu portffolios Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (CGC) yn dda. Maent yn cynnwys ystod briodol o dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth tystion a chofnodion ffotograffig. Caiff mwyafrif gwaith ysgrifenedig dysgwyr ei gyflwyno'n dda gyda sillafu, atalnodi a gramadeg rhesymol sy'n briodol i lefel yr hyfforddiant. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr bob amser yn cael adborth ysgrifenedig adeiladol gan eu hasesydd. O ganlyniad, nid yw dysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon da ac nid ydynt yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu perfformiad.

Mae rhai dysgwyr yn defnyddio a datblygu eu medrau dwyieithog yn dda yn ystod sesiwn hyfforddi yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith, gweithgareddau asesu ac adolygiadau cynnydd.  Fodd bynnag, nid oes digon o ddysgwyr yn ymarfer a datblygu eu Cymraeg yn ystod eu gweithgareddau hyfforddi neu asesu.

**Lles:  Da**

Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ddealltwriaeth dda o faterion iechyd a diogelwch yn eu canolfannau hyfforddi neu'u hamgylchedd gwaith.  Er enghraifft, mae dysgwyr ar gyrsiau trin gwallt Lefel 3 yn deall y profion y mae'n rhaid iddynt eu gwneud cyn rhoi lliw mewn gwallt, ac mae dysgwyr ar gyrsiau trydanol Lefel 3 yn deall y cyfrifoldebau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'u swyddi a chanlyniadau camgymeriadau technegol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn ystod eu dosbarthiadau ac yn eu gweithle.  Mae ganddynt ddealltwriaeth dda ynghylch at bwy y dylent droi pe baen nhw, neu ddysgwyr eraill, yn cael eu bwlio neu'u haflonyddu.  Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwybod sut i wneud cwyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd datblygu a chynnal cydbwysedd iach rhwng gwaith a bywyd.  Mae gan rai dysgwyr fedrau annibynnol a rheoli amser da iawn.  Maent yn trefnu eu gwaith yn effeithiol ac yn cynllunio a chwblhau gwaith ymhell cyn y terfynau amser.  Mae llawer o ddysgwyr yn gosod nodau gyrfa clir iddyn nhw eu hunain.

Mae llawer o ddysgwyr yn cyfranogi'n effeithiol mewn sesiynau a addysgir a dysgu yn y gwaith fel ei gilydd.  Maent yn gweithio'n dda mewn parau, grwpiau ac yn annibynnol ac yn helpu ei gilydd i ehangu eu dysgu trwy drafodaeth fywiog.  Er enghraifft, mewn gweithdy gwaith plymer, gweithiodd dysgwyr yn dda iawn mewn parau ar dasg dechnegol i fesur, torri a gosod peipen.  Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae dysgwyr yn rhy oddefol mewn dosbarthiadau theori ac nid ydynt yn cyfrannu'n ddigon da at drafodaethau dosbarth a grŵp.

Mae pob dysgwr yn dilyn rhaglen ymsefydlu gynhwysfawr un i un neu grŵp, sy'n rhoi sylw da i les a phwysigrwydd ffordd iach o fyw.

Mae rhai dysgwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd datblygu medrau llafar, llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) da i fod yn effeithiol yn eu swyddi.  Yn yr achosion gorau, mae dysgwyr yn dysgu sillafu geiriau ac ymadroddion technegol yn rheolaidd ac yn sicrhau eu bod yn deall y cysyniadau rhifiadol sy'n gysylltiedig â'u gwaith.

Mae pob dysgwr yn gyflogedig ac mae ganddynt fedrau cyflogadwyedd da.  Maent yn mynychu sesiynau hyfforddi i ffwrdd o'r gwaith yn rheolaidd ac maent yn brydlon.  Mae llawer o ddysgwyr yn magu hyder yn sgil ymgymryd â'u hastudiaethau a'u profiadau yn y gwaith.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r consortiwm yn cyflwyno amrywiaeth dda o raglenni sy'n bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn dda.

Mae cyflogwyr yn hapus â'r ffordd y caiff rhaglenni hyfforddi eu trefnu a'u cyflwyno. Maent yn canmol y cymorth a gânt yn fawr. Mewn rhai achosion, caiff cynnwys y rhaglen hyfforddi ei addasu i fodloni anghenion penodol cyflogwyr. Mae hyn yn cynnwys atal presenoldeb dysgwyr mewn sesiynau hyfforddi i ffwrdd o'r gwaith yn ystod cyfnodau prysur cyflogwyr a dewis unedau CGC sy'n gweddu'n effeithiol i ofynion busnes y cyflogwr.

Mae dull y consortiwm o ddarparu ar gyfer medrau yn canolbwyntio ar ddysgwyr yn ennill y medrau llythrennedd a rhifedd sydd eu hangen i gwblhau eu fframweithiau cymhwyster. Fodd bynnag, ni chaiff digon o ddysgwyr eu herio i ennill medrau llythrennedd a rhifedd lefel uwch.

Caiff bron pob un o'r dysgwyr asesiad diagnostig priodol ar ddechrau eu rhaglen hyfforddi. Fodd bynnag, nid yw athrawon ac aseswyr yn defnyddio canlyniadau'r asesiadau hyn yn ddigon cyson i sicrhau bod gan bob dysgwr dargedau llythrennedd a rhifedd penodol. O ganlyniad, nid oes gan ddysgwyr ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen iddynt ei wella.

Mae trefniadau'r consortiwm ar gyfer cyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn amrywio gormod. Maent yn cynnwys sesiynau sy'n cael eu haddysgu, cymorth un i un a dysgu annibynnol gan ddefnyddio taflenni tasgau neu werslyfrau penodol. Mae staff yn defnyddio rhestr wirio cynllunio i fonitro cynnwys medrau hanfodol mewn cynlluniau gwersi a chynlluniau gwaith. Fodd bynnag, mae staff yn colli cyfleoedd sy'n codi'n naturiol i ddatblygu llythrennedd a rhifedd yn y gweithle. At ei gilydd, nid yw trefniadau'r consortiwm ar gyfer gwella medrau dysgwyr yn ddigon effeithiol na thrylwyr.

Yn y consortiwm, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad dysgwyr yn y Gymraeg yn anghyson ac yn amrywio gormod. Mewn rhai achosion, mae dysgwyr yn ymgymryd â gweithgareddau asesu ar gyfer eu fframwaith cymhwyster a medrau hanfodol trwy gyfrwng y Gymraeg. Ni chaiff llawer o ddysgwyr ddigon o anogaeth i ddefnyddio eu medrau Cymraeg mewn sesiynau hyfforddi i ffwrdd o'r gwaith. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn datblygu eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru yn dda.

Ar draws y consortiwm, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF) wedi ei datblygu'n ddigon da.

**Addysgu: Digonol**

Mae staff addysgu, tiwtoriaid ac aseswyr yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes a medrau galwedigaethol a diwydiannol. Mae bron pob un o'r staff addysgu yn defnyddio'r medrau hyn yn dda i gynllunio eu sesiynau. Mae mwyafrif y sesiynau yn annog dysgwyr i feddwl drostynt eu hunain a chydweithio â phobl eraill.

Mae gan y rhan fwyaf o staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgwyr ac maent yn rhoi cymorth priodol iddynt yn y dosbarth.  Fodd bynnag, mewn rhai sesiynau, nid yw staff yn darparu tasgau sy’n herio dysgwyr yn ddigon da.

Mae’r rhan fwyaf o staff yn defnyddio ystod briodol o ddulliau addysgu, gyda chymysgedd da o fewnbwn gan y tiwtor a gweithgarwch gan y dysgwyr, sy’n gwneud gweithgareddau ystafell ddosbarth yn braf a difyr i ddysgwyr.  Mae ansawdd yr adnoddau addysgu a hyfforddi yn dda ar y cyfan.  Mae bron pob un o’r aseswyr a’r staff hyfforddi yn cyflwyno gweithgareddau hyfforddi yn y gwaith yn dda.  Maent yn rhoi medrau a gwybodaeth ymarferol briodol i ddysgwyr sy’n addas ar gyfer eu rôl swydd.

Mae gan aseswyr yn y gweithle berthynas dda â’u dysgwyr a’u cyflogwyr.  Maent yn gweithio gydag ystod eang o gyflogwyr lleol a chenedlaethol i sicrhau amgylcheddau gwaith o ansawdd da ar gyfer dysgwyr.  Mae bron pob asesydd yn cynnal adolygiadau cynnydd rheolaidd gyda’u dysgwyr.  Maent yn gosod targedau priodol i ddysgwyr weithio tuag at eu nod cymhwyster.  Fodd bynnag, nid yw aseswyr yn gosod targedau na chamau gweithredu yn rheolaidd i gynorthwyo dysgwyr i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae bron pob un o’r aseswyr yn cynllunio eu gweithgareddau asesu yn drylwyr.  Maent yn wybodus am weithgareddau gwaith dysgwyr a gallant gysylltu cynnwys y CGC â gwaith dysgwyr.  Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt a sut byddant yn cael eu hasesu.  Mae’r rhan fwyaf o aseswyr yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig adeiladol i ddysgwyr.  Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw dysgwyr yn siŵr faint o gynnydd y maent wedi ei wneud na’r hyn y mae angen iddynt ei wneud i gwblhau eu cymhwyster.

Mae portffolios CGC yn cynnwys amrywiaeth o dystiolaeth ac mae dysgwyr yn gweithio’n briodol yn unol â lefel eu cymhwyster.  Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig o ansawdd da.  Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw aseswyr bob amser yn cywiro camgymeriadau sillafu a gramadegol yng ngwaith ysgrifenedig dysgwyr.

Mae aseswyr a staff addysgu yn olrhain cynnydd dysgwyr trwy nifer o systemau olrhain gwahanol.  Mae staff yn cyfarfod bob mis i fonitro cynnydd dysgwyr ac adolygu gofynion y contract, fel proffilio targedau ac adolygiadau cynnydd coll.  Mae system olrhain ar draws y consortiwm cyfan wrthi’n cael ei datblygu i roi gwybod i uwch reolwyr pa mor dda y mae dysgwyr yn dod yn eu blaenau ac a ydynt ar y trywydd iawn i gyflawni eu nod cymhwyster.  Mae staff aelodau’r consortiwm yn dechrau mynychu cyfarfodydd safoni rheolaidd i rannu arfer dda ar draws y consortiwm.

### Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da

Mae gan bob partner yn y consortiwm ystod eang o bolisïau perthnasol sy’n cwmpasu meysydd pwysig yn ymwneud ag iechyd a lles dysgwyr, gan gynnwys bwlio ac aflonyddwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac iechyd a diogelwch.  Mae dysgwyr yn teimlo’n ddiogel ac yn gwybod sut i adrodd am unrhyw achosion o aflonyddwch neu fwlio.

Mae pob partner yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael gwybodaeth a chyngor cyn dechrau, ac yn darparu pecynnau ymsefydlu trylwyr a sesiynau ymsefydlu teilwredig. Mae trefniadau ymsefydlu yn hyrwyddo iechyd a lles yn briodol.  Mae un partner yn cynnig adnodd electronig cynhwysfawr ar gyfer testunau lles ac fe gaiff defnydd o hwn ei hyrwyddo'n effeithiol mewn rhai adrannau.  Fodd bynnag, ychydig iawn o hyrwyddo'r cyfleusterau cymorth ac arweiniad sydd ar gael i ddysgwyr sy'n digwydd ar draws y consortiwm.  Nid yw rhai dysgwyr yn ymwybodol o unrhyw gymorth ac arweiniad sydd ar gael iddynt, heblaw trwy eu hasesydd.

Mae'r consortiwm yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael asesiadau cychwynnol llythrennedd a rhifedd pan fyddant yn dechrau eu rhaglen.  O ganlyniad i'r sgrinio hwn, darperir cymorth llythrennedd a rhifedd ychwanegol i ddysgwyr y nodwyd bod ganddynt angen dysgu penodol.  Mae llawer o ddysgwyr sy'n cael cymorth yn y dosbarth yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

Mae tiwtoriaid ac aseswyr yn dangos agweddau gofalgar at eu dysgwyr, maent yn adnabod eu cefndiroedd a'u hanghenion unigol yn dda, ac yn rhoi lefelau da o gymorth unigol a grŵp iddynt.

Nid oes unrhyw bryderon pwysig am ddiogelu ar draws darpariaeth y consortiwm. Fodd bynnag, codwyd rhai mân feysydd i'w gwella ynghylch eglurder polisïau a gweithdrefnau gyda'r consortiwm yn ystod yr arolygiad.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae gan bob aelod o'r consortiwm bolisi priodol i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.  Mae pob un o staff y consortiwm wedi mynychu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, er nad yw'r hyfforddiant hwn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ar gyfer pob aelod o staff.  Mae isgontractwyr y consortiwm yn trefnu eu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hunain.  Fodd bynnag, nid yw arweinydd neu bartneriaid y consortiwm bob amser yn monitro p'un a yw hyfforddiant wedi gwella darpariaeth ac arfer.

Ar draws y consortiwm, ceir ystod o adnoddau defnyddiol i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith dysgwyr.  Yn y cyfnod ymsefydlu, caiff dysgwyr gyflwyniad effeithiol i bolisïau ac arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth.  Fodd bynnag, yn ystod adolygiadau cynnydd, nid yw staff yn atgyfnerthu materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ddigon da.

Mae'r rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth a chanolfannau hyfforddi yn cynnwys ystod dda o adnoddau dysgu.  Ceir cyfleoedd da i fanteisio ar TGCh ac mae hyn yn galluogi dysgwyr i fanteisio ar ddeunyddiau ymchwil a dysgu yn gyflym.  Mewn canolfannau hyfforddi ac ystafelloedd dosbarth, ceir arddangosfeydd amserol sy'n dathlu gwaith a chyflawniadau dysgwyr.

Caiff gweithdai a chyfleusterau hyfforddi eu paratoi'n dda, mae eu maint yn dda ac maent yn addas at eu diben.  Mae staff addysgu a hyfforddi yn creu amgylchedd sy'n ffafriol i ddysgu.

Mae bron pob un o weithleoedd y cyflogwyr yn darparu amgylchedd dysgu da. Mae ynddynt offer da ac maent yn rhoi cyfle da i ddysgwyr ddatblygu medrau gweithle cyfoes a'r cyfle i ddefnyddio technoleg gweithle fodern, ansawdd da.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r consortiwm wedi bod yn gweithredu'n ffurfiol er mis Ebrill 2015. Mae uwch arweinwyr o ddau bartner y consortiwm, gan gynnwys pennaeth y coleg a phennaeth gwasanaeth yr awdurdod lleol, wedi gweithio gyda'i gilydd i oruchwylio datblygiad y consortiwm trwy grŵp strategol er mis Mai 2014.

Dros y cyfnod hwn, mae'r consortiwm wedi wynebu ansicrwydd sylweddol ynglŷn â'i gontract a natur y bartneriaeth. Yn ychwanegol, mae deiliaid swydd mewn swyddi hanfodol wedi symud neu newid rolau. O ganlyniad, nid yw uwch arweinwyr wedi gallu sefydlu a chyfleu cyfeiriad strategol clir a thymor hir ar gyfer y consortiwm. Effaith gyfunol hyn yw bod y consortiwm wedi gwneud cynnydd cyfyngedig tuag at sicrhau partneriaeth gref a gweithredol hyd yma.

Mae uwch arweinwyr wedi sefydlu grŵp datblygu'r consortiwm ac ystod briodol o grwpiau gweithredol effeithiol. Caiff y grwpiau hyn eu cadeirio gan uwch reolwyr a rheolwyr gweithredol ac mae ganddynt ystod dda o aelodau addas o ddau bartner y consortiwm. Mae'r grwpiau wedi gwneud cychwyn cadarn o ran datblygu arfer a gweithdrefnau ar gyfer y consortiwm.

Mae uwch arweinwyr a rheolwyr gweithredol yn y partneriaid yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn rheoli eu gwaith o ddydd i ddydd yn dda. Cânt gyfarfodydd rheolaidd gyda'u staff. Mae gan reolwyr a staff ar bob lefel ffocws cryf ar sicrhau deilliannau da i ddysgwyr. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr.

Mae'r grwpiau gweithredol yn darparu mecanwaith ar gyfer cyfleu gwybodaeth trwy'r consortiwm ac fe gynhelir trafodaethau defnyddiol yn y grwpiau hyn. Caiff cyfarfodydd eu dogfennu'n dda. Fodd bynnag, ar draws y consortiwm yn gyffredinol, nid yw uwch arweinwyr wedi cyfleu nodau a chyfeiriad strategol y consortiwm yn glir. O ganlyniad, nid yw staff ar lefelau is yn y consortiwm, ac isgontractwyr, bob amser yn glir ynglŷn â nodau'r consortiwm na'u lle nhw ynddo.

Mae'r consortiwm cyfan yn atebol i gorff llywodraethol y partner arweiniol, sef Coleg Gŵyr Abertawe. Caiff grŵp cwricwlwm ac ansawdd y corff llywodraethol adroddiadau rheolaidd am y consortiwm ac mae llywodraethwr dynodedig yn gysylltiedig â dysgu yn y gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r corff llywodraethol ac aelodau etholedig y Cyngor, sy'n goruchwylio'r ddarpariaeth yn y partner awdurdod lleol, sef LLETS, bob amser yn cael eu hysbysu'n ddigonol am ddatblygiad y consortiwm yn y dyfodol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

At ei gilydd, mae gan y consortiwm systemau a phrosesau priodol ar waith i ddatblygu system ansawdd ar draws y bartneriaeth. Fodd bynnag, datblygwyd llawer o'r systemau a'r prosesau hyn yn ddiweddar ac nid ydynt yn cael eu hymgorffori'n llawn na'u cymhwyso'n gyson ar draws y ddarpariaeth eto.

Mae staff LLETS a chyfadran y coleg yn cyflwyno adroddiadau gwella ansawdd misol i'r consortiwm a grwpiau rheoli ansawdd y coleg, sydd yn eu tro yn hysbysu uwch staff a'r corff llywodraethol. Mae'r system hon yn dechrau hysbysu'r holl gyfranogion am y gofynion gwella ansawdd ar draws y consortiwm.

Mae'r consortiwm yn monitro perfformiad dysgwyr, gan ddefnyddio ystod o systemau defnyddiol, ar draws isgontractwyr, llwybrau galwedigaethol a meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid oes dull cyson ar gyfer olrhain a monitro perfformiad dysgwyr ar draws y consortiwm. Nid yw'r consortiwm yn gallu defnyddio system drosfwaol yn ddigon effeithiol eto i olrhain cynnydd dysgwyr ar draws y ddarpariaeth.

Nid yw'r adroddiad hunanasesu dros dro bob amser yn adlewyrchu gwaith y consortiwm yn ddigon cywir. Mewn llawer o feysydd, nid yw'r adroddiad yn dadansoddi ac arfarnu'r ffactorau sy'n arwain at danberfformio yn ddigon da; mae'n dweud gormod am y pethau cadarnhaol ac nid yw'n dweud digon am y meysydd i'w gwella.

Mae'r cynllun datblygu ansawdd yn ddogfen gynhwysfawr sy'n cynnwys cynlluniau gweithredu clir, yn dyrannu graddfeydd amser ac adnoddau priodol ac yn nodi cerrig milltir a chyfrifoldebau allweddol. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar o ran gwneud cynnydd yn erbyn y camau gweithredu ac nid yw cerrig milltir a dyddiadau targed wedi cael eu cyrraedd eto.

Mae'r consortiwm yn dechrau arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu a rhannu arfer orau. Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei ymgorffori yng ngweithgareddau gwella ansawdd y consortiwm eto. O ganlyniad, mae'n rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd y broses hon wrth ysgogi gwelliannau mewn safonau a darpariaeth.

Mae aelodau'r consortiwm yn defnyddio cyfuniad priodol o holiaduron ysgrifenedig rheolaidd, grwpiau llais y dysgwr a grwpiau ffocws i gasglu barn dysgwyr. Caiff canlyniadau'r gweithgareddau hyn eu dadansoddi a datblygir cynlluniau gweithredu priodol. Mae grwpiau cwricwlwm a rheoli ansawdd GCS a LLETS yn monitro'r cynnydd yn erbyn camau gweithredu.

Mae'r consortiwm yn rheoli ei isgontractwyr yn briodol. Mae cytundebau lefel gwasanaeth ar waith sy'n amlinellu'r hyn y mae'r darparwr yn ei ddisgwyl gan isgontractwyr yn glir. Mae gan y consortiwm strategaeth glir ar gyfer ysgogi gwelliannau mewn isgontractwyr sy'n tanberfformio. Fodd bynnag, nid yw'r strategaeth hon bob amser yn rhoi cymorth priodol i isgontractwyr er mwyn gwella.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y consortiwm rôl weithredol a strategol yn ardal Abertawe, fel Partneriaeth Adfywio Economaidd Abertawe, Partneriaeth Dysgu Abertawe a'r Bartneriaeth Ddysgu Ranbarthol. Mae pennaeth y coleg yn cadeirio Grŵp Llywio Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol De Orllewin Cymru a Phartneriaeth Sgiliau Bae Abertawe. Mae'r cysylltiadau hyn wedi galluogi'r consortiwm i gefnogi ymchwil partneriaeth i gasglu gwybodaeth am y farchnad lafur, gan nodi pwysigrwydd medrau ar gyfer y diwydiant gwyddorau bywyd yn yr ardal. Mae hyn wedi galluogi'r consortiwm i weithio mewn partneriaeth ag addysg uwch i ddatblygu fframwaith Prentisiaeth Uwch ar gyfer gwyddorau bywyd, gan fodloni'r galw am y medrau hyn.

Mae pennaeth y coleg yn cyfarfod â chyfarwyddwr addysg yr awdurdod lleol yn rheolaidd, gan sicrhau deialog agos sy'n galluogi'r consortiwm i ymateb ar y cyd i anghenion lleol, fel cyfleoedd datblygu Bae Abertawe.

Mae gan y consortiwm bartneriaethau cryf â diwydiannau a chyflogwyr lleol, y mae'n gweithio gyda nhw'n dda i ddatblygu darpariaeth dysgu yn y gwaith sy'n ymatebol i anghenion y farchnad lafur. Er enghraifft, pan adolygodd Cwmni Dur TATA eu gofynion partneriaeth, fe wnaethant ddewis gweithio gyda'r consortiwm, i ddatblygu rhaglen brentisiaeth a oedd yn addas ar gyfer anghenion penodol swyddogaethau labordy'r diwydiant dur. Creodd hyn gyfleoedd i ddysgwyr ddilyn prentisiaethau a oedd yn eu galluogi i symud ymlaen i ddilyn cymwysterau lefel uwch. Mae'r consortiwm yn gweithio'n agos ag un gweithgynhyrchwr titaniwm i helpu'r cwmni i recriwtio prentisiaid. Mae wedi cynllunio rhaglen recriwtio deilwredig i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael gwybod yn glir am anghenion a gofynion y diwydiant, sy'n cynnwys cyflwyniad gan y cwmni, ymweliad undydd â'r cyflogwr a chyfleoedd profiad gwaith estynedig.

Mae bron yr holl gyflogwyr y mae'r consortiwm yn gweithio gyda nhw yn teimlo eu bod yn cael cymorth da gan y consortiwm. Mae cydweithio agos â chyrff dyfarnu wedi galluogi'r consortiwm i arwain ar ddatblygu sawl fframwaith prentisiaeth uwch sy'n bodloni anghenion y farchnad lafur.

Mae staff y consortiwm yn gweithio'n dda gydag ysgolion lleol i gefnogi digwyddiadau ymwybyddiaeth gyrfaoedd ar gyfer dysgwyr a rhieni a helpu ysgolion i ddatblygu cysylltiadau â diwydiant. Mae'r consortiwm yn darparu rhaglen alwedigaethol i ysgolion mewn sawl ysgol uwchradd, gan alluogi dysgwyr i ddatblygu medrau galwedigaethol a chael cipolwg da ar ddysgu yn y gwaith. Mae'n darparu sesiynau rhagflas defnyddiol i ddysgwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion, sy'n ehangu eu hymwybyddiaeth o gyfleoedd dilyniant ym myd gwaith. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau o ran cyllid wedi arwain at leihau'r ddarpariaeth hon dros y flwyddyn ddiwethaf. Nid oes strategaeth glir sy'n esbonio sut bydd y consortiwm yn parhau i gefnogi ysgolion yn y modd hwn.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r consortiwm yn monitro recriwtio a'r nifer sy'n derbyn lleoedd ar brentisiaethau yn effeithiol trwy ei gyfarfodydd grŵp data a chyllid. Defnyddir y cyfarfodydd hyn yn dda i nodi tanberfformio yn erbyn targedau a osodwyd ar gyfer recriwtio dysgwyr i feysydd dysgu'r consortiwm. Fodd bynnag, er bod y camau a gymerwyd gan y

consortiwm i fynd i'r afael ag unrhyw danberfformio wedi lleihau'r diffyg yn sylweddol, nid ydynt wedi ei ddileu.  Pan mae tanberfformio wedi cael ei nodi, caiff targedau perfformiad eu haddasu'n gyflym, ac fe gaiff cyllid ei drosglwyddo i gyd-fynd â hyn, i'r meysydd dysgu hynny lle mae'r galw am leoedd yn uwch.  Fodd bynnag, nid yw pob aelod o'r consortiwm neu isgontractwyr yn llwyr ddeall y rhesymau y tu ôl i unrhyw newidiadau i dargedau a chyllid.

Mae pob aelod o'r consortiwm ac is-gontractwr yn rheoli eu staff a'u hadnoddau yn annibynnol trwy eu strwythurau rheoli mewnol eu hunain.  Caiff y rhain eu rheoli'n dda ar y cyfan i fodloni anghenion gweithredol.  Fodd bynnag, mae amrywiad eang yn y gymhareb dysgwr i asesydd ar draws rhaglenni'r consortiwm.  Mae hyn yn golygu er nad yw rhai aseswyr yn cael eu defnyddio'n ddigonol, mae gan aseswyr eraill ormod o ddysgwyr i ysgwyddo rhai newydd.  Er gwaethaf yr anghydbwysedd hwn, cyfyngedig yn unig yw'r arfer o rannu aseswyr rhwng aelodau'r consortiwm a'r isgontractwyr, er mwyn sicrhau cydbwysedd o'r newydd rhwng y ddarpariaeth a lleihau rhestrau aros.

Bron ym mhob darparwr dysgu, mae aseswyr yn ymgymryd â rôl yr adolygydd hefyd.  Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o feysydd dysgu, caiff y rolau hyn eu rhannu, sy'n arwain at rannu cyfrifoldeb ar gyfer staff yn ddiangen a gwaith cynyddol i'r dysgwyr gydlynu eu cyfarfodydd gyda mwy nag un person.

Mae gan bob aelod o'r consortiwm ac is-gontractwr eu rhaglen ymsefydlu gynhwysfawr eu hunain ar gyfer pob aelod newydd o staff.  Mae'r rhaglenni hyn i gyd yn cynnwys testunau gorfodol y mae'n rhaid i staff newydd eu cwblhau cyn iddynt ddechrau ar eu swydd newydd.  Mae pob rhaglen ymsefydlu yn cwmpasu cyfrifoldebau diogelu yn ogystal â rheoli iechyd a diogelwch personol.  Mae'r trefniadau datblygiad personol parhaus yn rhoi ystyriaeth briodol i anghenion hyfforddi a datblygu asesydd unigol.  Yn benodol, eir i'r afael yn dda ag anghenion aseswyr i barhau yn gyfoes â gofynion cyrff dyfarnu.

Er bod aelodau'r consortiwm ac isgontractwyr yn gwneud eu dadansoddiad cynhwysfawr eu hunain o anghenion hyfforddi ac yn datblygu eu cynlluniau hyfforddi eu hunain, nid oes dadansoddiad na chynllun trosfwaol ar gyfer y consortiwm cyfan.  Fodd bynnag, yn gyffredinol, cynigir digwyddiadau hyfforddi i aelodau eraill y consortiwm pan fydd lleoedd ar gael, ac yn ddiweddar, datblygwyd hyfforddiant ar y cyd mewn materion diogelu allweddol.

Ceir rhai enghreifftiau da o aelodau'r consortiwm yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff ei gilydd.  Fodd bynnag, nid yw'r arfer o rannu adnoddau ymhlith aelodau'r consortiwm a'r dadansoddiad strategol o anghenion hyfforddi staff er mwyn llywio cynllunio, wedi ei datblygu'n ddigonol.

At ei gilydd, mae'r safonau a'r cyfraddau y mae dysgwyr yn ennill cymwysterau arnynt yn debyg i'r meincnod ar y cyfan; felly, mae'r consortiwm yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Rydym yn defnyddio deilliannau arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru i lywio ein holl arolygiadau o addysg a hyfforddiant ôl-16. Arolwg o foddhad dysgwyr a gynhelir gan Lywodraeth Cymru rhwng Ionawr a Chwefror bob blwyddyn yw Llais y Dysgwr.

Mae'r arolwg yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau am y themâu allweddol canlynol i ddysgwyr:

- y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a roddir iddynt;
- ymatebolrwydd y darparwr, yr amgylchedd dysgu a lles myfyrwyr;
- ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi; a
- boddhad cyffredinol.

Mae pob thema yn cynnwys amrywiaeth o gwestiynau sy'n gofyn i ddysgwyr raddio perfformiad eu darparwr.

Hyd yn hyn, ni chynhaliwyd arolwg Llais y Dysgwr yr AdAS ar gyfer Partneriaeth Sgiliau Bae Abertawe.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Sandra Barnard | Arolygydd Cofnodol |
| Steve Bell | Arolygydd Tîm |
| Gerard Kerslake | Arolygydd Tîm |
| Vanessa Morgan | Arolygydd Tîm |
| Stephen Davies | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Penny Lewis | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick | Arolygydd Tîm |
| Reginald Hughes | Arolygydd Cymheiriaid |
| Caroline Peek | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gill Davies | Enwebai |